



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

MAE'R AMGUEDDFA WEDI YMUNO Â'R SGWRS: Archwilio posibilrwydd cyfryngau cymdeithasol

Joe Vaughan: Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol, [The Museum of English Rural Life](#)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac orielau wedi cofleidio'r cyfryngau cymdeithasol, gan greu a churaduro cynnwys sydd wedi denu cynulleidfaoedd niferus iawn. Yn aml, ymddengys fod natur curaduro drwy gyfryngau cymdeithasol yn dra gwahanol i gyd-destunau'r amgueddfa draddodiadol: mae postïadau'n teimlo'n wirion, rhyfedd a chyffrous a symudant i leoedd sy'n ymddangos yn ysgytiol o anghydnaws â phynciau a themâu'r casgliadau eu hunain. Yn y papur hwn dadleuir dros y cyfleoedd sy'n gynhenid i'r dieithrwch hwn, gan ystyried sut y gall cyfryngau cymdeithasol – ar eu mwyaf arbrofol hyd yn oed – adlewyrchu a chydategu gwaith yr amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac orielau eu hunain, gan ddefnyddio enghreifftiau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a gwaith hanesyddol yr Amgueddfa. Yn y pen draw, mae'n dymuno siarad o ddifrif am wiriondeb.

Bywgraffiad

Joe Vaughan yw Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol The Museum of English Rural Life (@TheMERL, Twitter). Graddiodd o Brifysgol Sheffield ag MA mewn Ysgrifennu Creadigol. Awdur creadigol yw Joe sydd wrth ei fodd yn defnyddio geiriau'n feddylgar a dychmygus, gan ofalu bod pob stori'n cael ei hadrodd yn y ffordd sy'n gweddu orau iddi. Mae ef hefyd yn strategydd digidol profiadol a oedd, cyn dod i weithio i'r MERL, yn ymgynghorydd mewn asiantaeth annibynnol arobryn lle bu'n gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau cenedlaethol ar draws amrywiaeth o sectorau. Storiwr yw Joe yn y bôn, ac mae'n fwyaf hapus pan fydd yn rheoli cyfryngau cymdeithasol neu'n ysgrifennu copi ar eu cyfer.